

Gwaith atal a hyrwyddo annibyniaeth i oedolion hŷn

Crynodeb

Gwaith atal a hyrwyddo annibyniaeth i oedolion hŷn

Crynodeb

Gwnaed ein gwaith ar gyfer yr adroddiad hwn yn ystod 2019 ym mhob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru.

Gwnaethom edrych ar y cynnydd a wnaed gan wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a byrddau iechyd tuag at sicrhau bod oedolion hŷn yn aros yn annibynnol am fwy o amser, yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Yr hyn a wnaethom

Gwnaethom edrych ar brofiadau pobl dros 65 oed wrth iddynt gael cymorth gan wasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd. Gwnaethom ddilyn taith pobl wrth iddynt gael eu derbyn i gartref gofal, neu hyd at y pwynt pan nad oedd angen help na chymorth arnynt mwyach.

Gwnaethom weithio gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) i gael gwybod sut mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cydweithio ac yn cyfrannu at brofiadau a chanlyniadau i bobl y mae angen cymorth arnynt.

Gwnaethom ystyried y pynciau canlynol:

- Pobl – a gaiff eu lleisiau eu clywed ac a oes rheolaeth ganddynt?
- Partneriaethau, integreiddio a chyd-gynhyrchu - pwy sy'n gweithio gyda'i gilydd a phwy sy'n cynhyrchu pethau gyda'i gilydd?
- Atal – atal pobl rhag cyrraedd sefyllfa argyfyngus neu rhag bod angen cymaint o ofal a chymorth arnynt
- Llesiant – beth sy'n bwysig i bobl?

Gwnaethom hefyd ystyried y meysydd canlynol:

- Pa ganlyniadau y mae pobl yn eu cyflawni?
- Pa mor dda y mae gwasanaethau yn ymateb i bobl o ddydd i ddydd?
- Pa mor dda y mae sefydliadau yn cydweithio ar lefel uwch, a pha mor dda y mae cyllidebau ac adnoddau yn diwallu anghenion lleol?

Ein canfyddiadau

Pobl – llais a rheolaeth

Roedd pobl yn cael eu trin ag urddas a pharch gan staff gofal bron bob amser, ac roedd y staff gofal yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'w bywydau. Roedd y staff gofal yn chwilio

am gyfleoedd i sicrhau bod lleisiau pobl yn cael eu clywed yn amlach, a'u bod yn gallu gwneud dewisiadau am bethau sy'n bwysig iddynt. Mae angen gwneud mwy o waith i sicrhau bod lleisiau gofalwyr yn cael eu clywed. Rhaid i arweinwyr a rheolwyr anelu at ddod â gwybodaeth, cyngor a chymorth ynghyd, a chymhwyso Deddf Galluedd Meddyliol 2005 at bob agwedd ar eu gwaith.

Llesiant

Roedd pwysigrwydd helpu pobl hŷn i gynnal eu llesiant yn cael ei gydnabod yn gynyddol fel ffordd gadarnhaol o hyrwyddo annibyniaeth, ac fel agwedd ar waith roedd llawer o staff gofal yn cael boddhad ohoni. Nid yw'r hawl i ofalwyr gael asesiad wedi helpu gofalwyr eto o ran rhai o'r heriau y maent yn eu hwynebu. Mae'r gyfraith yn nodi bod yn rhaid blaenoriaethu llesiant gofalwyr, ond ni cheir esboniad manwl o hyn, sy'n golygu nad yw disgwyliadau gofalwyr yn cyfateb i'r adnoddau sydd ar gael.

Partneriaethau ac integreiddio

Roedd llawer o bobl yn cael budd o'r cydberthnasau cadarnhaol yr oeddent yn eu meithrin â'r staff gofal, a oedd yn eu trin yn gyfartal ac yn helpu pobl i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt. Mae angen i arweinwyr ac uwch-reolwyr ar draws awdurdodau lleol a byrddau iechyd ganolbwyntio mwy ar eu cyfrifoldeb i gydnabod a datblygu diwylliant cynaliadwy, drwy gydweithio a chynllunio gwasanaethau gyda'i gilydd. Hyd yma, ni fu hyn o fudd sylweddol i bobl yn ein cymunedau.

Atal

Nid yw'r ddyletswydd i gefnogi pobl cyn iddynt gyrraedd sefyllfa argyfyngus yn cael ei chyflawni'n gyson ledled Cymru. Weithiau mae rheolwyr yn camddeall eu dyletswydd, ac yn credu os nad yw unigolyn yn gymwys i gael cynllun gofal a chymorth, yna nad yw'n gymwys i gael mathau eraill o help. Bydd Llywodraeth Cymru am roi rhagor o eglurder yn y maes hwn, ac ynghylch rôl cyllid personol mewn asesiadau am ofal a chymorth.

Gallwch ddarllen yr adroddiad llawn ar ein gwefan: <https://arolygiaethgofal.cymru/ein-hadroddiadau/adroddiadau-cenedlaethol-thematic>